# Agenda - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Chwefror 2019

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSafonau@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Adroddiadau 03-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

(09.30 - 09.45) (Tudalennau 1 - 4)

SoC(5)-03-18 Papur 1 - Llythyr oddi wrth Y Fonesig Dawn Primarolo, Cadeirydd y Bwrdd Taliadau (29 Ionawr 2019)

SoC(5)-03-19 Papur 2 - Llythyr oddi Llywydd (31 Ionawr 2019)

## 3 Adolygiad o'r Cod Ymddygiad: y Camau Nesaf

(09.45 - 11.00) (Tudalennau 5 - 18)

SoC(5)-03-19 Papur 3 - Papur y Pwyllgor

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

Eitem 2

Jayne Bryant AC, Cadeirydd
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

29 Ionawr 2019

Annwyl Jayne

**Adroddiad 03-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9**

Trafododd y **Bwrdd Taliadau** adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad **o dan Reol Sefydlog 22.9** yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2019.

Mae'r Bwrdd wedi dechrau adolygu'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad, ac ar hyn o bryd mae'n trafod y materion sydd wedi'u cynnwys yn rhan gyntaf yr adolygiad, sy'n cynnwys y darpariaethau ynghylch y Lwfans Costau Swyddfa.

Mae'r Bwrdd yn croesawu argymhellion y Pwyllgor o ran sut y gellid diwygio darpariaethau'r Penderfyniad i liniaru'r tebygolrwydd y bydd y sefyllfa a amlinellwyd yn eich adroddiad yn codi eto. Mae'r Bwrdd yn rhannu barn y Pwyllgor o ran sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol gan Aelodau wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau ac mae'n trafod sut y gellir cynnwys eich argymhellion yn y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad. Byddai unrhyw newidiadau yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Fel yr amlinellwyd ar **wefan y Bwrdd**, rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad ar unrhyw newidiadau i'r Lwfans Costau Swyddfa ar gyfer y Chweched Cynulliad yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yng ngwanwyn 2019. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am gynigion y Bwrdd a fydd yn sail i'r ymgynghoriad maes o law.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Taliadau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
Remuneration@assembly.wales
0300 200 6565

Os hoffech drafod y mater ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â'r Bwrdd drwy'r **ysgrifenyddiaeth**.

Cofion gorau,

**Y Fonesig Dawn Primarolo**

**Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Jayne Bryant AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/RH

31 Ionawr 2019

Annwyl Jayne

**Ymateb i adroddiad 03-18 o dan Reol Sefydlog 22.9**

Gofynnwyd i'r Comisiwn ystyried yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'r Comisiynydd Safonau yn eu hadroddiad 03-18 o dan Reol Sefydlog 22.9.

Rwy'n ymwybodol eich bod hefyd wedi gofyn i'r Bwrdd Taliadau ystyried yr argymhellion. Bydd y Bwrdd yn ysgrifennu atoch ar wahân. Diben y llythyr hwn, fodd bynnag, yw rhoi ymateb y Comisiwn i'r argymhellion hyn.

Mae'r Penderfyniad yn amlinellu'r gofynion sydd ynghlwm wrth gael mynediad at y Lwfans Costau Swyddfa. Mae'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau yn cynnig cyngor a chanllawiau i Aelodau i'w galluogi i wneud y defnydd gorau o'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt. Mae'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau wedi cynhyrchu llyfryn ar ***sut i gaffael swyddfa etholaethol neu ranbarthol***.

Mae'r canllawiau dan sylw yn ymdrin â'r materion y dylai Aelodau eu hystyried wrth ddod o hyd i swyddfa a negodi prydles. Felly, rydym yn derbyn eich argymhelliad bod Comisiwn y Cynulliad yn cynhyrchu rhestr wirio i Aelodau sy'n awgrymu'r meysydd i'w hystyried a'r camau i'w cymryd wrth ddod o hyd i swyddfa etholaethol. Bydd y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau yn ymestyn y canllawiau dan sylw i gynnwys rhestr wirio.

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Bydd y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau hefyd yn addasu'r canllawiau ac unrhyw weithdrefnau y maent yn eu dilyn wrth ddarparu gwasanaethau cymorth ac wrth brosesu hawliadau mewn perthynas â lwfansau a ddarperir drwy'r Penderfyniad ar gyfer swyddfeydd rhanbarthol neu etholaethol, yn unol ag ymateb y Bwrdd Taliadau.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon